Dysgu ar-lein am ddim gydag OpenLearn y Brifysgol Agored

Prosiect Ymgyrraedd yn Ehangach ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Taflen briffio'r prosiect - Ionawr 2012

Trosolwg cryno

Drwy OpenLearn, www.open.ac.uk/openlearn mae'r Brifysgol Agored yn cynnig y gronfa fwyaf o adnoddau addysgol ar-lein AM DDIM yn Ewrop. Mae dros 600 o gyrsiau gan gynnwys Cymraeg i ddechreuwyr, rheoli dyled, hanes Cymru, sgiliau astudio, mathemateg, gwyddoniaeth a channoedd mwy. Gan weithio gyda'r bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yng nghanolbarth a gogledd Cymru, bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi a phrosiectau peilot i helpu pobl yn y gymuned i gael mynediad at OpenLearn a'i defnyddio fel llwybr tuag at ddysgu ffurfiol.

Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn hyfforddi hyrwyddwyr OpenLearn ledled canolbarth a gogledd Cymru i helpu pobl i ddod o hyd i adnoddau am ddim a'u helpu i gymryd y camau cyntaf a'r camau nesaf tuag at ddysgu. Byddwn hefyd yn datblygu ein gwefan OpenLearn Cymru ac yn creu cynnwys newydd ar gyfer OpenLearn gan gynnwys mwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg.
www.open.edu/openlearn/wales-cymru

Atebion i'ch Cwestiynau
Oes gennych ddiddordeb mewn pwnc newydd ac am wybod mwy? Neu efallai eich bod yn frwdfrydig am bwnc. P'un ai dysgu am bum munud neu am 50 o oriau rydych am ei wneud, cewch hyd i'r ateb ar OpenLearn. Ac mae am ddim.

Prosiect ehangu mynediad yw hwn, gyda'r nod o godi dyheadau a chynyddu cyfleoedd i'r rheini heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch a chaiff ei dargedu at y rheini sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Beth yw OpenLearn?
OpenLearn yw'r gronfa fwyaf o Adnoddau Addysgol Agored yn y DU. Mae dros 600 o gyrsiau AM DDIM ar gael o lefel ragarweiniol i lefel uwch, ac mae pob un yn cymryd rhwng awr a 50 o oriau o astudio. Mae gan OpenLearn podlediadau a deunyddiau fideo integredig sydd ar gael o ITunesU ac YouTube. Mae ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim a gall gynnig llwybrau at ddysgu ffurfiol. www.open.ac.uk/openlearn

Ymysg cyrsiau OpenLearn mae; Cymraeg i ddechreuwyr, hanes Cymru, rheoli dyled, busnes, canllawiau sgiliau astudio, iechyd a lles, Saesneg academaidd, adnoddau asesu a channoedd mwy. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn Saesneg, ond mae gennym rywfaint o gynnwys yn Gymraeg ac mae rhagor yn yr arfaeth. Ceir dolenni i'r holl gynnwys cyfrwng Cymraeg diweddaraf a phynciau sy'n ymwneud â Chymru megis 'Cymru Gyfoes' a 'Hanes Cymru' ar ein gwefan OpenLearn Cymru. www.open.edu/openlearn/wales-cymru

Pa mor rhyngweithiol yw OpenLearn? A allaf gysylltu â dysgwyr eraill?
Mae gweithgareddau rhyngweithiol gan y rhan fwyaf o gyrsiau a gall dysgwyr sy'n defnyddio OpenLearn gadw llygad ar eu cynnydd o ran cyrsiau drwy eu 'gofod dysgu' personol eu hunain, cysylltu â dysgwyr eraill mewn fforymau trafod, sefydlu neu ymuno â chlybiau dysgu ar-lein, a datblygu eu cyfnodolion dysgu eu hunain.
Beth sydd wrth wraidd y prosiect?
Drwy'r prosiect Ymgyrraedd yn Ehangach hwn yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, bydd y Brifysgol Agored yn gweithio gyda phartneriaid ledled canolbarth a gogledd Cymru i helpu i feithrin gallu a gwybodaeth am OpenLearn mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn yn defnyddio'r dysgu anffurfiol hwn fel llwybr i helpu pobl i ddatblygu i astudio ffurfiol a dod o hyd i ddarparwyr dysgu priodol. Byddwn yn hyfforddi **hyrwyddwyr OpenLearn** ledled canolbarth a gogledd Cymru. Unwaith i hyrwyddwyr OpenLearn gael eu nodi a'u hyfforddi, byddwn yn eu helpu i ymuno â chymuned ar-lein i gael cymorth parhaus ac i ddatblygu rhwydwaith o gymheiriaid. Byddant yn cael y cyfle hefyd i ddylanwadu ar ffurf y prosiect fel y mae'n datblygu.

Pwy all fod yn hyrwyddwyr OpenLearn?
Bydd angen i hyrwyddwyr OpenLearn fodloni meini prawf penodol er mwyn dangos eu bod yn gallu cyflawni rôl hyrwyddwr cyn iddynt gael eu derbyn ar y cyrsiau hyfforddi. Fel hyn gallwn sicrhau bod yr hyfforddiant yn targedu'r bobl gywir.
Gall hyrwyddwyr fod yn bobl o blith y canlynol……

- Gweithwyr neu wirfoddolwyr Cymunedau yn Gyntaf
- Tiwtoriaid neu hyfforddwyr o sefydliadau a cholegau yn y gymuned
- Pobl yn gweithio ym maes dysgu oedolion yn y gymuned neu hyrwyddo dysgu a datblygu fel rhan o rôl eu swydd
- Staff llyfrgelloedd
- Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau yn y gweithle
- Unrhyw un arall â chysylltiadau yn ei gymuned neu ei weithle sy'n credu yng ngwerth dysgu ac sydd â diddordeb mewn helpu eraill i gael mynediad i ddysgu.

Bydd hyrwyddwyr OpenLearn yn gweithio'n ddi-dâl a disgwylir iddynt ymgymryd â'r rôl o fewn eu rôl broffesiynol neu wirfoddol arferol. Rhagwelwn y bydd bod yn hyrwyddwr OpenLearn yn ategu ac yn helpu i gyflawni nodau eu rôl bresennol.

Ble a phryd y cynhelir hyfforddiant hyrwyddwyr OpenLearn?
Byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi undydd ledled Canolbarth a Gogledd Cymru i hyfforddi hyrwyddwyr OpenLearn. Caiff y dyddiadau eu cadarnhau, ond mae'n debygol y cynhelir y sesiynau yn ardal Wrecsam (mis Chwefror), Gogledd-orllewin Cymru (Ebrill), Canolbarth Cymru (Mai) ac ardal Conwy/y Rhyl (Mehefin)

Sut y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am hynt y prosiect?
Byddwn yn dosbarthu gwybodaeth friffio reolaidd i roi'r newyddion diweddaraf i bartneriaid yn y gymuned wrth i'r prosiect ddatblygu a chadwch olwg am ein Blog Prosiect sy'n dod yn fuan.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â:

Gayle Hudson g.hudson@open.ac.uk